

Cofion

- Anfonwn ein cofion at y cleifion yn ein plith. Mae Gwenllian Jones (Henllan) yn parhau i gael gofal yn Ysbyty Maelor, fel ag y mae Gwyn Jones (Peniel) a Gwyneth Rawson (Llanfair) yn yr Inffymari. Cyflwynwn y tri i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y byddant yn cael eu diogelu a'u cadw'r dyddiau hyn. Bu'n rhaid i Owain Pierce (Llanefydd) hefyd dreulio ychydig ddyddiau yn yr ysbyty a chael llawdriniaeth yn dilyn anffawd. Brysia i wella Owain a dymuniadau gorau am wellhad buan i ti a phawb arall sydd heb fod yn dda y dyddiau hyn.
- Cofiw'n hefyd am ein ffrindiau mewn cartrefi gofal – Mrs Kitty Parry, Llanefydd a Mrs Elsie May Edwards, Llansannan (Preswylfa, Y Rhyl); Mrs Bessie Owens, Cefn Berain (Plas Llanrhaeadr); Miss W J Roberts a Mrs Edith Maloney, Henllan (Yr Hen Ddeondy, Llanelwy); Mrs Gwenfyl Williams, Llansannan (Bryn yr Eglwys, Pentrefoelas); Mrs Elizabeth Hughes, Llansannan (Plas Eleri, Dinbych); a Mrs Morfudd Williams, Henllan (Tŷ Cariad, Abergele). Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd gan hyderu eu bod yn profi gofal a grym ein gweddiâu drostynt.

Ysgrifen mwy o faint?

Rydym eisoes yn argraffu copiâu o Llais Bro Aled sydd â'r ysgrifen naill ai yn **ddwy, pedair neu chwe gwaith yn fwy o ran maint** ar gyfer sawl un o'r darllenwyr. Os ydych chi, neu os gwyddoch am unrhyw un sydd yn ei chael yn anodd darllen Llais Bro Aled yn y maint fel ag y mae, plis gadewch i Mair wybod. Gallwn argraffu fel bo'r galw ac anfon y copiâu hefo'r pecynnau Llais Bro Aled sy'n dod i'r eglwysi bob wythnos, neu wneud trefniant arall yn ôl y gofyn.

I ddod

- **CYMDEITHAS LLANSANNAN** – Cyfle i fynd i Noson o Ddramâu yng Nghapel Bethania, Rhuthun nos Lun, Chwefror 12fed am 7.30. Os ydych angen trafnaeth neu am rannu car, dewch i faes parcio Capel Coffa Henry Rees erbyn 6.45, os gwelwch yn dda.
- **CYFARFOD CHWIORYDD YR OFALAETH** nos Fawrth, Chwefror 13eg am 7.30 yn Festri Capel y Waen, Nantglyn pan fydd Rowena Williams, Y Bala yn arddangos gwaith basgedi gwiall.
- **PENWYTHNOS IEUENCTID (BL. 7-11)** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 16eg–18fed. Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob unigolyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Gallwch archebu lle trwy fynd i wefan colegybala.org/Cymraeg/rhaglen-y-coleg. Mwy o wybodaeth gan Gwion.
- **LLANW** – Bydd gŵyl Gristnogol Llanw yn cael ei chynnal yng Nghydweli eleni a hynny rhwng Ebrill 2il – 5ed, gyda phrif weithgareddau'r ŵyl yn cael eu cynnal yng Nghanolfan y Dywysoges Gwenllian yng Nghydweli a'r llety yn cael ei ddarparu yn y *Carmarthen Bay Holiday Park* ychydig filltiroedd i ffwrdd. Ewch i'r wefan www.llanw.org am fwy o fanylion a ffurflen archebu.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 4^{ydd} Chwefror 2018

Darlleniad y Dydd

Joel 3:14-16

(BCND tud.830 / BCN tud.756)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso i'n hoedfaon ar draws Bro Aled heddiw. Diolchwn fod yr Arglwydd wedi ein rhoi ni mewn gwlad lle gallwn gyfarfod yn rhydd i'w addoli, heb unrhyw ofn na braw.

Unwaith i chi ddechrau meddwl am y peth mae yna lawer o fanteision o fod yn blentyn – bwyd yn cael ei ddarparu'n gyson, dim poeni am arian, gallu mynd i chwarae heb feddwl am yr hyn sy'n dod fory neu'r wythnos nesaf, a'r diniweidrwydd o beidio bod wedi profi na deall llawer o ddyrygioni'r byd. Oedd, roedd bod yn blentyn yn amser da i lawer ohonom ni. Ond un peth dwi ddim yn gweld ei golli ydy cael braw! Rhywsut wrth dyfu, mae llai o bethau'n rhoi braw i mi a dwi'n llai tebygol o gael hunllefau. Cofiwch pan yn blentyn pan fyddai ci yn cyfarth yn ymosodol arnoch chi, neu eich bod yn colli'ch ffordd mewn tyrfa o bobl, neu efallai fod gwylan wedi swoopio lawr (does dim gair Cymraeg i gyfleu yr hyn mae gwylanod llwglyd yn ei wneud!) a dwyn eich hufen iâ allan o'ch dwylo! Yn ystod y sioc a'r crio, beth mae'r plentyn eisiau fwyaf? Mam neu dad! Wnaiff neb arall y tro. Rhaid cael mam neu dad yna i cael cwtsh a'i gadw'n saff.

Yn ein darlleniad heddiw o lyfr Joel, ysgogiad tebyg sydd i ni. Y braw: ¹⁴Mae tyrfaoedd enfawr yn Nyffryn y dyfarniad! Mae dydd barn yr ARGLWYDD yn agos yn Nyffryn y dyfarniad! ¹⁵ Mae'r haul a'r lleud wedi tywyllu, a'r sêr wedi diflannu. ¹⁶ Mae'r ARGLWYDD yn rhuo o Seion; a'i lais yn taranu o Jerwsalem, nes bod yr awyr a'r ddaear yn crynu. Dyna i chi ddiwyddiad i godi braw ar rywun! Mae'r effeithiau naturiol yn ddigon brawychus: haul a'r lleud a'r sêr wedi diflannu, a'r awyr a'r ddaear yn crynu, ond beth ddylai roi'r ofn mwyaf i ni ydy sut mae'r darlleniad yn cychwyn. Mae dydd barn yr ARGLWYDD yn agos (Joel 3:14). Mae'r dydd yn dod pan fydd pawb yn sefyll o flaen gorsedd y Goruchaf ac yn ateb am sut maen nhw wedi byw. Ydy hyn yn codi braw arna chi? Os ydy o, mae diwedd adnod 16 yn andros o gysur: *mae'r ARGLWYDD yn lle saff i'w bobl guddio ynddo, mae e'n gaer ddiogel i bobl Israel.* Yng ngwyneb barn Duw, gallwn redeg i guddio ynddo fel plentyn yn rhedeg at ei rieni. Wrth sylweddoli ein bod yn euog, gallwn droi ato fo, rhedeg i guddio yn ei freichiau a gofyn am faddeuant yn enw Iesu Grist.

Mae'r Arglwydd yn farnwr cyfiawn, ond mae o hefyd yn gaer ffyddlon a chadarn i'r rhai sy'n llochesu yn ei fynwes. Os oes gennym ofnau, poenau ac euogrwydd yn ein bywyd, dewch i ni redeg i guddio yn ei freichiau Sanctaidd Ef.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Gwion

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 4^{ydd} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tanygraig a bydd Celfyn yn pregethu.
- Mercher – 7^{fed} ➤ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Iau – 8^{fed} ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- **CIC+** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) ym Mhreswylfa, Cefn Meiriadog am 5.00.
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.00.
- Gwener – 9^{fed} ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
- Sul nesaf – 11^{eg} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwawr Davies a bydd y Parch. Hywel Meredydd yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 4^{ydd} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Mercher – 7^{fed} ➤ Cynhelir Cymdeithas Llanfair yn y Neuadd am 7.30 pryd ceir cwmni Arthur Gwyn Jones – 'Ffon at waith a ffon at gynhaliath'.
- Sul nesaf – 11^{eg} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 4^{ydd} ➤ Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf – 11^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 4^{ydd} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf – 11^{eg} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa.

Cyhoeddiadau

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 4^{ydd} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Mercher – 7^{fed} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **HEDDIW (4^{ydd})**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 11^{eg} ➤ Bydd y Parch. Hywel Meredydd yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Rhagrybudd ➤ Cynhelir oedfa deulu bore Sul, Chwefror 18fed, ac ar ddechrau'r oedfa, bydd yr eglwys yn gofyn, trwy bleidlais gudd, farn yr aelodau ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid

Saron a Pheniel

- Sul yma – 4^{ydd} ➤ Bydd gwasanaeth wedi ei drefnu i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yno am 2.00.
- Mawrth – 6^{ed} ➤ Cynhelir Clwb Ysgol Sul Saron yn festri'r capel am 3.15.
- Sul nesaf – 11^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Manylion Cyswilt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Galatiaid 6:14-16 (BCND tud.211 / BCN tud.192)